

Hysbysiad Preifatrwydd Teleofal

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud beth i'w ddisgwyl pan fydd Cyngor Bro Morgannwg yn casglu gwybodaeth bersonol yn ymwneud a'i wasanaethau Teleofal. Mae'n adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i fod yn dryloyw ynglŷn â sut rydym yn defnyddio eich data a'i gadw'n ddiogel. Mae'n disgrifio sut mae Gwasanaeth Teleofal Bro Morgannwg yn casglu, yn storio ac yn trin eich gwybodaeth bersonol pan fyddwch yn ei darparu neu pan wneir atgyfeiriad gan sefydliad neu unigolyn arall. Mae'n ymwneud â'ch cysylltiad â'r Cyngor a'i swyddogion trwy alwadau larwm, sgysiauw yn wyneb yn wyneb, a chyfathrebiad ffôn, e-bost, ar-lein ac ysgrifenedig.

Bydd Bro Morgannwg fel Rheolwr Data yn gyfrifol am gasglu a phrosesu gwybodaeth iechyd a Gofal Cymdeithasol rydych yn ei darparu i ni o dan Brosesu'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yn Gyfreithlon:

- Erthygl 6(1)(a) – rydych chi wedi cydsynio'n glir i ni brosesu eich data personol at ddiben penodol;
- Erthygl 6(1) (e) – ' ar gyfer perfformio tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth ymarfer awdurdod swyddogol...'
- Erthygl 9(2) (h) – at bwrpasau..... 'diagnosis meddygol, darparu triniaeth gofal iechyd neu gymdeithasol neu reoli systemau gofal iechyd a chymdeithasol...'

Ystyr prosesu yn y cyd-destun hwn yw trefnu, adalw, ymgynghori, defnyddio a dileu neu ddinistrio gwybodaeth a'i ddatgelu i asiantaethau eraill sy'n angenrheidiol er mwyn i dasgau gael eu gwneud er budd y cyhoedd neu er mwyn darparu gofal cymdeithasol.

Y wybodaeth rydym ni'n ei chasglu amdanoch chi

Caiff y wybodaeth byddwn yn ei chasglu yn ystod y cais am eich gwasanaeth ei chofnodi'n ddiogel a'i storio ar systemau cofnodion electronig Bro Morgannwg ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion a'r gwasanaeth Teleofal. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am eich pryderon presennol, unrhyw risgiau a nodir a'r math ar offer Teleofal y gellir ei ddefnyddio i'ch helpu i reoli'r risgiau hyn.

Byddwn ond yn casglu'r lleiafswm o wybodaeth sy'n ofynnol er mwyn darparu gwasanaeth i chi. Rydym yn casglu gwybodaeth bersonol gennych chi y gellir ei defnyddio i'ch adnabod, megis:

- Eich enw
- Cyfeiriad
- Dyddiad Geni
- Gwybodaeth Gyswllt

- Rhif Ffôn
- Cyfeiriad e-bost
- Amgylchiadau Byw
- Trefniadau gofal ffurfiol neu anffurfiol
- Gwybodaeth am eich gweithgareddau o ddydd i ddydd
- Enwau a manylion cyswllt ymatebwyr y cytunwyd arnynt, neu bwynt cyswllt ar gyfer asesiadau neu osodiadau
- Manylion banc os ydych yn talu am wasanaeth Teleofal.

Categori Arbennig/ Data Sensitif

Byddwn yn casglu gwybodaeth am Ofal Meddygol a Chymdeithasol amdanoch chi (gan gynnwys eich iechyd corfforol a meddyliol), er mwyn deall eich anghenion yn llawn ac ymateb yn briodol i'ch galwadau.

Nid ydym yn casglu unrhyw gategori arbennig arall neu ddata sensitif.

Ar gyfer beth rydym yn defnyddio eich gwybodaeth?

- Er mwyn rhoi gwasanaeth Teleofal cynhwysfawr i chi sy'n addas ar gyfer eich anghenion.
- Er mwyn cysylltu â chi ynglŷn â'ch gwasanaeth, i ddeall eich anghenion a darparu gwasanaeth i fodloni'r anghenion hynny.
- Mae rhywfaint o offer Teleofal wedi'i 'gysylltu', sy'n golygu ei fod yn gysylltiedig â'r ganolfan fonitro ym Mro Morgannwg. Bydd angen ar y Ganolfan Fonitro eich gwybodaeth i'w helpu i asesu argyfwng neu broblem ac i'w rheoli mor gyflym ac mor effeithiol â phosibl.
- Mae rhai mathau penodol ar offer Teleofal yn defnyddio technoleg GPS (System Leoli Fyd-eang) a all ddangos eich lleoliad yn fanwl gywir os byddwch yn gwisgo dyfais a alluogir gan GPS, er mwyn eich helpu i'ch cadw'n iach ac yn ddiogel. Defnyddir gwefannau neu 'platfformau' ochr yn ochr â dyfeisiau GPS ac maent yn storio gwybodaeth berthnasol amdanoch chi. Defnyddir y wybodaeth naill ai gan Ganolfan Fonitro neu gan aelod dynodedig o'r teulu neu ymatebwr i'ch helpu i ddod o hyd i chi os ewch chi ar goll.

Sut y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth amdanoch chi

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth rydych yn ei darparu mewn modd sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data. Byddwn yn ceisio cadw eich gwybodaeth yn gywir ac yn gyfredol a phaidio â'i chadw am yn hwy nag sy'n angenrheidiol. Mewn rhai enghreifftiau, mae'r gyfraith yn pennu hyd yr amser mae'n rhaid cadw gwybodaeth.

Byddwn yn defnyddio gwybodaeth amdanoch chi, er mwyn:

- Pennu'r ymateb fwyaf priodol mor gyflym ac effeithiol â phosibl os byddwn yn derbyn galwad larwm o'ch offer Teleofal 'cysylltiedig'
- Rhoi cyfarwyddiadau i bartneriaid i ddweud wrthym am offer i'w osod (e.e. Keysafe wedi'i osod gan ein contractwr dynodedig)
- Caniatáu i ni allu cyfathrebu â chi, deall eich anghenion a darparu Teleofal perthnasol, gwasanaethau a buddion lechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n briodol i'ch anghenion
- Diweddarau eich cofnod cwsmeriaid, wrth dderbyn gwybodaeth ddiweddar gennyh chi
- Cofnodi gwybodaeth berthnasol a gwefannau neu blatfformau partner, e.e. GPS fel y gall aelod teulu neu ymatebwr dynodedig helpu i ddod o hyd i chi os ewch chi ar goll.
- Cael eich barn am ein gwasanaethau, monitro a gwella perfformiad y Cyngor wrth ymateb i unrhyw geisiadau
- Caniatáu i ni ymgymryd â swyddogaethau statudol yn effeithlon ac yn effeithiol
- Trafod eich gwasanaeth gyda staff lechyd a Gofal Cymdeithasol perthnasol i wella unrhyw gynlluniau cymorth presennol neu yn y dyfodol a lle y bo angen i amddiffyn unigolion rhag niwed neu anafiad
- Sicrhau ein bod yn bodloni ein rhwymedigaethau cyfreithiol a statudol, gan gynnwys y rhai sy'n perthyn i amrywiaeth a chydraddoldeb
- Prosesu trafodion ariannol gan gynnwys casglu arian sy'n ddyledus i ni, prosesu grantiau, taliadau a budd-daliadau sy'n ymwneud â'r Cyngor, neu ble rydym yn gweithredu ar ran cyrff eraill y Llywodraeth
- Atal a chanfod twyll a llygredd wrth ddefnyddio cronfeydd cyhoeddus
- Caniatáu dadansoddi data yn ystadegol fel y gallwn gynllunio darpariaeth gwasanaethau.

Gyda phwy y gellir rhannu eich gwybodaeth (yn fewnol ac yn allanol)

Mae'n bosibl y bydd angen i ni drosglwyddo eich gwybodaeth i bobl a sefydliadau eraill sy'n ein helpu i ddarparu'r gwasanaeth. Mae'n rhaid i'r darparwyr gadw eich manylion yn ddiogel a'u defnyddio er mwyn bodloni cais yn unig.

Ni chaiff eich gwybodaeth, ar unrhyw adeg, ei throsglwyddo i sefydliadau sy'n allanol i ni na'n partneriaid, at ddibenion marchnata neu werthiant neu at unrhyw ddefnydd masnachol heb eich cydsyniad penodol o flaen llaw.

Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu rhywfaint o wybodaeth gyda sefydliadau eraill gan gynnwys:

- Asiantaethau lechyd a Gofal Cymdeithasol, megis y GIG, sy'n gweithio gyda ni i sicrhau y darperir gwasanaeth cynhwysfawr i chi
- Partneriaid neu gontractwyr dynodedig sy'n gosod neu'n cynnal a chadw offer i ni ar gais

- Y rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol a gwasanaethau gofal neu'n eu darparu, megis staff lechyd a Gofal Cymdeithasol Bro Morgannwg
- Darparwyr gofal e.e. Gofalwyr, cynorthwyr personol neu weithwyr cymorth o asiantaethau preifat sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'ch cefnogi
- Ymatebwyr a enwir y bydd y ganolfan monitro yn cysylltu â nhw os digwydd bod galwad larwm
- Y Gwasanaethau Brys y gellir cysylltu â nhw os digwydd bod galwad larwm
- Gwasanaethau Tai, landlordiaid preifat, rheolwyr cynllun neu reolwyr cartrefi gofal ar gyfer caniatâd os oes angen er mwyn gosod offer
- Y rhai sy'n archwilio ac yn monitro ein gwaith

Ni fyddwn yn trosglwyddo unrhyw ddata personol i drydydd partïon, heblaw am y rhai sydd naill ai'n prosesu gwybodaeth ar ein rhan ni, neu oherwydd gofyniad cyfreithiol, a byddwn ond yn gwneud hynny, lle y bo'n bosibl, ar ôl i ni sicrhau y cymerwyd camau digonol i ddiogelu'r data personol gan y derbynydd. Ni fyddwn yn gwerthu eich gwybodaeth i unrhyw sefydliad.

Ni fyddwn yn datgelu unrhyw wybodaeth rydych yn ei darparu 'yn gyfrinachol' i ni, i unrhyw un arall heb eich caniatâd, heblaw yn y sefyllfaoedd prin pan mae gofyn am ddatgelu yn ôl y gyfraith, o lle mae gennym reswm i gredu y byddai methu rhannu'r wybodaeth yn eich rhoi chi neu rywun arall mewn perygl. Cewch chi wybod am hyn. [Cyfeiriwch at wefan Cyngor Bro Morgannwg i gael rhagor o wybodaeth am Amddiffyn a Diogelu Oedolion neu Blant]

Am faint byddwn yn cadw eich gwybodaeth

Byddwn ond yn cadw gwybodaeth am mor hir ag y mae ei hangen. Mae copi o atodlen Cadw y Cyngor ar gael ar:

https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/working/adult_and_community_learning/Get-Back-on-Track/Website-privacy-notice.aspx

Diogelwch Gwybodaeth

Rydym yn cydnabod y bydd y wybodaeth rydych chi'n ei darparu yn sensitif o bosibl a byddwn yn parhau eich cyfrinachedd. Byddwn yn cadw gwybodaeth amdanoch chi yn gyfrinachol. Mae hyn yn golygu y byddwn yn ei storio'n ddiogel ac yn rheoli pwy sydd â mynediad ati. Ni fyddwn yn storio unrhyw wybodaeth lle nad oes gofyn cyfreithiol i chi wneud hynny.

Trosglwyddiadau Data

Delir yr holl wybodaeth rydych yn ei darparu i ni o fewn Ardal Economaidd Ewrop (EEA)

Eich hawliau

Mae'r Cyngor yn ceisio bod mor agored â phosibl ag y gall fod yn nhermau unigolion yn ymarfer eu hawliau parthed eu data personol, gan gynnwys hawliau mynediad, unioni, dileu, cyfyngu, cludadwyedd data, gwrthwynebu a'r rhai sy'n perthyn i wneud

penderfyniadau wedi'i awtomeiddio. Gall unigolion gael gwybod os ydym yn cadw unrhyw wybodaeth bersonol trwy wneud Cais Gwrthrych am Wybodaeth o dan Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2018 a Deddf Diogelu Data 2018.

Cewch chi wneud cais i'r Cyngor am unrhyw wybodaeth bersonol rydym yn ei chadw amdanoch chi o bosibl drwy:

E-bostio tîm yr Uned RhG - FOIUnit@valeofglamorgan.gov.uk

Darperir y wybodaeth i chi am ddim.

Eich hawl i wneud cwyn

Mae'r Cyngor yn ymdrechu i fodloni'r safonau uchaf wrth gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Am y rheswm hwn, rydym yn cymryd unrhyw gwynion rydym yn eu derbyn yn ddifrifol iawn. Rydym yn annog pobl i roi gwybod i ni os ydynt yn credu bod ein proses o gasglu neu ddefnyddio gwybodaeth yn annheg, yn gamarweiniol neu'n amhriodol.

Os ydych chi eisiau gwneud cwyn, gallwch gysylltu â ni ar:

Y Swyddog Cwynion
Swyddfeydd y Dociau
Heol yr Isffordd
Y Barri
CF63 4RT

Swyddog Diogelu Data

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data y Cyngor yn y cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Rhyddid Gwybodaeth
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holltwn
Y Barri
CF63 4RU
E-bost - DPO@valeofglamorgan.gov.uk

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Y Comisiynydd Gwybodaeth yw corff annibynnol y DU a sefydlwyd i gynnal hawliau gwybodaeth.

Os hoffech chi wybod rhagor am eich hawliau o dan gyfraith Diogelu Data, a'r hyn y dylech ei ddisgwyl gennym, dylech ymweld â gwefan y Comisiynydd Gwybodaeth.

Os oes gennych unrhyw bryderon parthed ein harferion preifatrwydd neu parthed ymarfer eich hawliau Diogelu Data, cewch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow

Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 0303 123 1113 neu 01625 545 745

E-bost: casework@ico.org.uk

Mae rhestr lawn o ba wybodaeth rydym yn ei rheoli a'i phrosesu ac at ba ddibenion wedi'i rhoi yn ein hysbysiad gyda Chofrestr y Comisiynydd Gwybodaeth o Reolwyr Data.

Ein rhif cofrestru yw Z4683754. Gallwch weld ein cofrestriad ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth.